# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

**Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol gynhaliwyd 6 Ionawr 2020 am 7.30yh yn Hen Ysgol y Ferwig.**

**Presennol:**

Cyng. Auriol Williams (Cadeirydd)
Cyng. Eurig Lloyd
Cyng. Dilwyn Jenkins
Cyng. Peter Williams
Cyng. Clive Davies (Aelod lleol y Cyngor Sir)

Cyng. Lloyd Jenkins *(Is-Gadeirydd)*
Cyng. Llinos Price
Cyng. Delyth Phillips

Mrs Melanie Davies (*Clerc*)

1. **Croeso'r Cadeirydd:** Croesawodd y Cadeirydd, y Cyng. Auriol Williams, bawb i gyfarfod mis Ionawr gan ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i bawb. Llongyfarchodd un o'n trigolion ifanc lleol, sef Mia Lloyd, am gael yr anrhydedd o Berson Mwyaf Ysbrydoledig Chwaraeon Cymru.

2. **Ymddiheuriadau am absenoldeb:** Y Cyngh. Matthew Morgan, Lyn Jones a Des Davies.

3. **Cofnodion y cyfarfod cyffredinol blaenorol**

   Cynigiwyd gan y Cyng. Dilwyn Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng. Eurig Lloyd fod cofnodion mis Rhagfyr yn gywir.

4. **Datgelu buddiannau personol:**

5. **Materion yn codi:**

   (a) **Cinio Nadolig yr Henoed:** Rhoddwyd gwybod bod 29 o ddinasyddion hŷn yr ardal wedi mynychu a phawb wedi cael gwledd.

6. **Ceisiadau am Gymorth Ariannol**

   I'w penderfynu ym mis Ebrill a mis Hydref, yn unol ag adrannau 137 a 142 (CAB) o Ddeddf Ariannol 1996.
   Gŵyl Fawr Aberteifi

7. **Cynllunio:**

| *Rhif y Cais* | *Cyfeiriad a Bwriad* | *Sylwadau'r Cyngor* |
|---|---|---|
| | | |
| | | |

8. **Materion Ariannol**

**Biliau wedi eu talu:**

| | | |
|---|---|---|
| Clwb Golff Aberteifi (Cinio Nadolig yr Henoed) | 101824 | £287.50 |
| Cyflog y Clerc (Rhagfyr 2019) | 101825 | £385.97 |
| Costau'r Clerc (Rhagfyr 2019) | 101826 | £40.80 |
| Cyllid a Thollau EM: Treth Incwm y Clerc (Rhagfyr 2019) | | Dim |
| Joe Roscoe (atgyweirio gollyngiad yn Ystafell Berkley) | 101827 | £50.00 |

Cynigiwyd gan y Cyng. Llinos Price ac eiliwyd gan y Cyng. Lloyd Jenkins bod y biliau uchod yn cael eu talu.

**Materion ariannol eraill**

Dogfen Cyllideb 2020-2021. Edrychodd y Cynghorwyr ar y ddogfen oedd yn nodi awgrymiadau'r Clerc tuag at gyllideb 2020-21. Penderfynwyd ceisio codi'r praesept er mwyn gwneud gwaith i'r Hen Ysgol, Cae Gwyrdd ac Ystafell Berkley. Awgrymwyd llunio rhagolwg a nodi'r prosiectau yn y praesept. Nodwyd bod cais am grant yn cael ei baratoi i gael paneli solar i'r Hen Ysgol. Mae hyn yn bosibilrwydd i Ystafell Berkley hefyd. Trafodwyd y posibilrwydd o roi arian i achosion eraill yn fwy cyson hefyd. Penderfynwyd gofyn i'r Cyngor Sir am braesept o £23,000 ar gyfer 2020-21.

**Derbyniadau:** Dim.

## 9. Gohebiaeth:

| | | | |
|---|---|---|---|
| 42 | Polisi a Pherfformiad, Cyngor Sir Ceredigion | Gwybodaeth am Ymgynghoriad y Cynllun Cydraddoldeb Strategol | Lan i unigolion lenwi hwn. Dim angen i'r Cyngor ei lenwi |
| 43 | Cyngor Sir Ceredigion | Llythyr ynghylch y praesept | Nodwyd |
| 44 | Gŵyl Fawr Aberteifi | Cais am rodd ariannol | I'w drafod ym mis Ebrill |
| 45 | Dave a Pat Haskell | E-bost yn mynegi anfodlonrwydd gyda datblygiadau cymdogion | Nodwyd na all y Cyngor wneud dim byd. |
| 46 | Margaret Davies | Carden yn diolch am y Cinio Nadolig | Nodwyd. |

## 10. Materion Eraill:

(a) **Swydd y Clerc:** Trafodwyd y ceisiadau am y swydd. Nid oedd unrhyw rai wedi dod i law erbyn dyddiad y cyfarfod ond roedd y dyddiad cau ymhen wythnos.

(b) **Bocsys:** Edrychwyd ar ddau o focsys papurau'r Cyngor a fu ym meddiant y cyn Glerc. Roedd papurau yno'n mynd yn ôl i 1987. Cytunwyd nad oedd angen cadw derbynebau, dyfynbrisiau nac archebion oedd yn mynd yn ôl ymhellach na 7 mlynedd. Trafodwyd y posibilrwydd o gadw'r cofnodion a'r llyfrau llythyron yn yr Hen Ysgol ar ôl i'r gwaith adnewyddu gael ei wneud yno. Nodwyd y gallai'r Cynghorwyr Dilwyn Jenkins ac Auriol Williams fynd trwy weddill y bocsys a phenderfynu ar ba gynnwys i'w gadw. Cynigiwyd gan y Cyng. Delyth Phillips ac eiliwyd gan y Cyng. Eurig Lloyd.

(c) **Cyfarfod Blynyddol Ystafell Berkley:** Nodwyd bod angen cynrychiolydd arall o'r Cyngor i fynychu'r cyfarfod hwn fis nesaf. Cynigiodd y Cyng. Lloyd Jenkins i gynrychioli'r Cyngor.

(d) **Piler yn Patch:** Plac wedi cwympo. Nodwyd hyn.

(e) **Adroddiad Adran 6:** Cafodd y cyfarfod wybod fod y Clerc wedi anfon yr Adroddiad ar Fioamrywiaeth a Chynaliadwyedd at y Llywodraeth erbyn 31 Rhagfyr. Bydd copi'n cael ei anfon at bawb wedi'r cyfarfod. Nododd y Cyng. Clive Davies fod cynlluniau i'r ymylon glaswellt ym Mhenyparc.

(f) **Brynteg:** Dywedwyd bod Nick Doyle wedi cynnig gosod ffrâm ddur er mwyn i'r plac gael ei ailosod yn fwy cadarn. Cytunodd pawb fod hyn yn syniad da.

## 11. Adroddiad y Cynghorydd Sir, y Cyng. Clive Davies:

(a) **Er gwybodaeth:** Mae'r Clwb Sboncen yn gwneud cais am grant gwerth £50,000 ar gyfer prosiect. Y gobaith yw cael 15% wrth y Gist Gymunedol a'r gweddill wrth Chwaraeon Cymru.
(b) **Cynllunio i'r Dyfodol** – Angen trafod Safleoedd Ymgeisiol y Cynllun Datblygu Lleol.
(c) **Llinellau Melyn** – Dywedodd y byddai'n mynd ar drywydd hyn ar gyfer y flwyddyn nesaf.
(d) **Ystafell Berkley** – soniodd am y potensial yno am welliannau.
(e) **Clwb Rygbi Aberteifi** – rhoddodd wybod eu bod nhw wedi cael grant

## 12. Dyddiad y cyfarfod nesaf 3 Chwefror – Ystafell Berkley, Penyparc

**Cyfarfodydd y Cyngor am 2020:**
2 Mawrth – Capel Festri Penyparc 6 Ebrill (YB) 4 Mai - CB (F) 1 Mehefin (YB)
6 Gorffennaf (F) 7 Medi (YB) 5 Hydref (F) 2 Tachwedd (YB) 7 Rhagfyr (F)

Dynoda: F = Hen Ysgol y Ferwig YB = Ystafell Berkley CB = Cyfarfod Blynyddol

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

**Minutes of the Ordinary Meeting held on 6 January 2020 at 7.30pm**
**at Hen Ysgol y Ferwig.**

**Present**

Cllr. Auriol Williams (*Chair*)
Cllr. Eurig Lloyd
Cllr. Dilwyn Jenkins
Cllr. Peter Williams
Cllr. Clive Davies (Local member of the County Council)
Cllr. Lloyd Jenkins *(Vice Chair)*
Cllr. Llinos Price
Cllr. Delyth Phillips
Mrs Melanie Davies (*Clerk*)

1. **Chairperson's welcome:** The Chair, Cllr. Auriol Williams, welcomed everyone to the January meeting and wished everyone a Happy New Year. She congratulated one of our young inhabitants, Mia Lloyd, for receiving Sports Wales' honour of the Inspiring Person of the Year.

2. **Apologies for absence:** Cllrs. Matthew Morgan, Lyn Jones and Des Davies.

3. **Minutes of the previous meeting**
It was proposed by Cllr. Dilwyn Jenkins and seconded by Cllr. Eurig Lloyd that the minutes of the December meeting be recorded as correct.

4. **Declaration of personal interests:**

5. **Matters arising:**

(a) **Senior Citizens' Christmas Dinner:** The Councillors were informed that 29 senior citizens attended the Christmas lunch and a feast was had by all.

6. **Requests for financial support**
To be discussed in April and October in accordance with Sections 137 and 142 (CAB) of the Finance Act 1996.
Gŵyl Fawr Aberteifi

7. **Planning:**

| | *Address and purpose* | *Council's observations.* |
|---|---|---|
| | | |
| | | |

8. **Financial Matters.**

**Bills paid:**

| | | |
|---|---|---|
| Cardigan Golf Club (Senior Citizens' Christmas Lunch) | 101824 | £287.50 |
| Clerk's salary (December 2019) | 101825 | £385.97 |
| Clerk's expenses (December 2019) | 101826 | £40.80 |
| HMRC: Clerk's Income Tax (October 2019) | | Nil |
| Joe Roscoe (repairing of leak at Ystafell Berkley) | 101827 | £225.00 |

It was proposed by Cllr. Llinos Price and seconded by Cllr. Lloyd Jenkins that the above bills be paid.

**Other financial matters**

Budget Document 2020-2021: Councillors reviewed the document noting the Clerk's suggestions towards the 2020-21 budget. It was decided to raise the precept in order to complete work at Yr Hen Ysgol, Cae Gwyrdd and Ystafell Berkley. A suggestion was made to create a forecast and note the projects in the precept. It was noted that a grant application is being prepared to obtain solar panels for Yr Hen Ysgol. This is a possibility for Ystafell Berkley too. The possibility of donating money to other causes on a more regular basis was also discussed. The Council decided to ask the County Council for a precept of £23,000 for 2020-21.

Receipts: None.

**9. Correspondence:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 42 | Policy and Performance, Ceredigion County Council | Information regarding the Strategic Equality Plan Consultation. | This is for individuals to complete. No need for the Council to do so. |
| 43 | Ceredigion County Council | Letter regarding the precept. | Noted. |
| 44 | Gŵyl Fawr Aberteifi | Request for financial support | To be discussed in April. |
| 45 | Dave and Pat Haskell | Email expressing dissatisfaction with planning department | It was noted that the Council was not able to help. |
| 46 | Margaret Davies | Card thanking the Council for the Christmas Lunch | Noted. |

**10. Other Matters:**

(a) **Clerk's Post –** Job applications were discussed. None had been received to date but there was still another week prior to the closing date.

(b) **Boxes –** Two boxes in the possession of the previous Clerk were looked at. Inside were papers dating back to 1987. It was agreed that receipts, quotes and orders going back further than 7 years did not need to be kept. The possibility of keeping minutes and letter books at Yr Hen Ysgol after the refurbishment work had been completed was discussed. Councillors Dilwyn Jenkins and Auriol Williams will look through the remainder of the boxes and decide which content will be kept. This was proposed by Cllr. Delyth Phillips and seconded by Cllr. Eurig Lloyd.

(c) **Ystafell Berkley's Annual Meeting:** It was noted that another Council member was needed to attend this meeting next month. Councillor Lloyd Jenkins offered to represent the Council.

(d) **Pillar at Patch:** Plaque has fallen off. This was noted.

(e) **Section 6 Report:** Councillors were informed that the Clerk had sent the Report on Biodiversity and Sustainability to the Government by 31st December. A copy will be sent to all members after the meeting. Cllr. Clive Davies noted that there are plans for the grass verges in Penyparc.

(f) **Brynteg:** Nick Doyle has suggested installing a steel frame in order to reinstate the plaque more securely. Everyone agreed that this was a good idea.

**11. County Councillor's Report – Cllr Clive Davies*:***

(a) **For information –** The Squash Club has made a grant application to the value of £50,000 for the project. It is hoped that 15% will be granted by the Community Chest and the remainder by Sports Wales.

(b) **Future Planning –** The Local Development Plan's Candidate Sites need to be discussed.

(c) **Yellow Lines –** This will be followed up for the next year.

(d) **Ystafell Berkley –** the potential for improvements to this building was mentioned

(e) **Cardigan Rugby Club –** he informed that they have received a grant.

**12. Date of next meeting:** 3 February (YB)

**Dates of Council Meetings for 2020:**

2 March (Penyparc Chapel Vestry) 6 April (YB) 4 May - AGM (F) 1 June (YB)
6 July (F) 7 September (YB) 5 October (F) 2 November (YB) 7 December (F)

*Denotes:* F = Ferwig Old School. YB = Ystafell Berkley. AGM = Annual General Meeting